

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #169
12 Ionawr 2015

15 Rhagfyr/December 2014

Blwyddyn Newydd Dda!**Happy New Year!**

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

Gobeithio y mwynhewch y gwasanaeth newydd!**We hope you enjoy the new bilingual service!**

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. [Cysylltwch](#) da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please [let us know](#) if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

Gweithio gyda busnesau**Helpu busnes lleol dargedu cyflenwyr bwydydd arbenigol**

Mae ty bwyta Dylan's wedi cyfuno medrusrwydd technegol Canolfan Technoleg Bwyd Grwp Llandrillo Menai gyda'u ryseitiau sawsus parod er mwyn ehangu eu marchnad i gyflenwyr bwydydd arbenigol, archfarchnadoedd a siopau fel Fortnum's and Mason a Harrods.

[Mwy>>>](#)

Coleg Caerdydd a'r Fro yn cydweithio â busnes lleol i lansio caffi

Mae myfyrwyr y coleg wedi ymuno â darparwr llety swyddfa yng Nghaerdydd, The Maltings, i redeg busnes arlwyio ar gyfer ei denantiaid .

[Mwy>>>](#)

Datblygiadau strategol

Cynulleidfa newydd i gystadlu yn yr Eisteddfod

Mae Eisteddfod yr Urdd wedi cyhoeddi rhestr newydd o gystadlaethau galwedigaethol cyfoes fydd yn denu cynulleidfa newydd i gystadlu, yn dilyn cydweithio â CholegauCymru.

[Mwy>>>](#)

Ysgol gelf yn ail-lansio gydag enw newydd

Mae Coleg Sir Gâr wedi ail-lansio ei ysgol gelf i ddathlu ei bresenoldeb hanesyddol yng Nghaerfyrddin sy'n dyddio yn ôl i 1854.

[Mwy>>>](#)

Cyflawniadau Ansawdd

Coleg Sir Benfro yn arwain y ffordd ym maes dysgu digidol

Mae arbenigedd Dr Geoff Elliott, Rheolwr Dysgu a Datblygu Technoleg yng Ngholeg Sir Benfro, wedi cael ei gydnabod gyda ei benodi i'r Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol.

Mae e'n rhoi ei wybodaeth ar waith drwy helpu i wella'r profiad dysgu yn sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru .

[Mwy>>>](#)

Canmoliaeth gan Estyn am raglen Safon Uwch

Cafodd Rhaglen ACE Coleg Sir Gâr, lle mae cyflawnwyr academiaidd uchel yn derbyn pecyn tiwtorial pwrpasol sy'n berthnasol i yrfaedd mewn proffesiynau uwch ac sy'n targedu prifysgolion Grŵp Russell a Rhydgrawnt, wedi ei ganmol am ei lwyddiant gan Estyn yn ystod arolygiad diweddar.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Gwobrau Safon Uwch

Y llynedd, dyfarnodd CBAC 79,000 o gymwysterau Safon Uwch ar draws y DU, gyda 75 yn cael eu cydnabod yng Ngwobrau Blynyddol Safon Uwch CBAC ar 18 Rhagfyr am eu cyflawniadau rhagorol yn y gyfres arholiadau haf 2014. Yn un o'r 75 oedd myfyriwr o Goleg Penybont, Shannon Rock, a enillodd y marciau uchaf yn y DU yn arholiad Safon Uwch y Gyfraith.

| [Mwy o Goleg Penybont](#)

Cafodd llwydiannau Safon Uwch a chyrsgiau Mynediad i Addysg Uwch eu dathlu hefyd yng Ngholeg Sir Gar gyda seremoni wobrwyo jyst cyn y Nadolig.

| [Mwy o Goleg Sir Gar](#)

Enillwyr cystadleuaeth Trading Places

Cyrhaeddodd myfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro y brig mewn cystadleuaeth genedlaethol gyda'r nod o annog menter ac entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc. Daeth pedwar o'r chwe gwobr yn ol i'r coleg yng nghystadleuaeth Trading Places eleni.

Enillodd myfyriwr Astudiaethau Busnes Raj Nithiyabalan y Gwobr EE am Wasanaeth Cwsmeriaid Eithriadol yn ogystal â bod yn y tîm buddugol - Giraffe. Enillodd tîm Jamie O'Brien yn y Gwobr Natwest am y Cynllun Busnes Orau a Gwobr EE am yrElw Uchaf.

[Mwy>>>](#)

Gwobrwyo Myfyrwyr a Gwobr Genedlaethol Nyrsio

Bu i Bethan Turner, myfyriwr ar gwrs gradd yng Ngholeg Llandrillo -sy'n ran o Grwp Llandrillo Menai - ennill gwobr genedlaethol 'Gweithiwr Cynnal Gofal Iechyd y Flwyddyn' gan y Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

[Mwy>>>](#)

Myfyriwr coleg yn ennill lle ar gynllun Prifysgol Caergrawnt

Mae Maria Lewis, myfyriwr Uwch Gyfannol yng Ngholeg Merthyr Tudful, wedi sicrhau lle ar gynllun cysgodi Prifysgol Caergrawnt. Bydd hi nawr yn ymuno â myfyrwyr eraill y Gyfraith o bob cwr o'r wlad wrth gael profiad uniongyrchol o'r prifysgol fawreddog.

[Mwy>>>](#)

Enillwyr Cystadleuaeth Barddoniaeth Dylan Thomas

Mae gan Goleg Meirion-Dwyfor, sy'n ran o Grwp Llandrillo Menai, reswm arbennig i ddathlu cystadleuaeth ysgrifennu Llenyddiaeth Cymru diweddar a ysbrydolwyd gan Dylan Thomas, gyda'r myfyrwraig Lois Llywelyn Williams yn ennill y wobwr gyntaf yn yr iaith Gymraeg ar gyfer y categori 16-18, a'r cyn-fyfyriwr Guto Dafydd yn cipio'r wobwr yn y categori Gymraeg ar gyfer yr ystod oed 19-25.

[Mwy>>>](#)

Coleg Myfyriwr yn Ennill X Factor Cymru

Enillodd Suleiman Atta, sy'n fyfyriwr Technoleg Cerddoriaeth yng Ngholeg Llandrillo - rhan o Grwp Llandrillo Menai - fersiwn Cymru o'r X Factor o flaen cynulledifa o gannoedd yn Theatr y Pafiliwn yn y Rhyl ychydig cyn y Nadolig . Yn ymuno ag ef yn awr bydd naw arall a gyrhaeddodd y brig yn y rownd derfynol ar daith genedlaethol Ffactor Cymru yn y flwyddyn newydd.

[Mwy>>>](#)

Coleg Sir Benfro yn gwobrwyo myfyrwyr rhagorol

Chwe mis ar ôl cwblhau eu Safon Uwch a Diplomâu Estynedig, gwahoddwyd cyn-fyfyrrwyr yn ôl i Goleg Sir Benfro ar gyfer seremoni wobrwyo flynyddol gyntaf y coleg er mwyn cydnabod eu cyflawniadau academaidd eithriadol.

[mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Perfformio yn nathliadau Nos Galan mwyaf y byd

Bu pedwar myfyriwr o Goleg Penybont yn perfformio yn Festival City, Downtown Dubai fel rhan o ddathliadau Nos Galan mwyaf y byd. Y coreograffydd oedd neb llai na'u darlithydd coleg, Terry Michael.

[Mwy>>>](#)

Dysgwr medi ffrwyth lleoliad Ymchwil Nuffield

Cafodd Chloe Brind, dysgwr yng Ngholeg y Cymoedd, gyfle i weithio ochr yn ochr â enillydd Gwobr Nobel pan bu'n un o ddim ond 68 o bobl ar draws Cymru i gymryd rhan mewn prosiect Ymchwil Nuffield eleni. Cafodd ymchwil arbenigol maes Chloe ei gefnogi gan Adran Bioamrywiaeth a Bioleg Systematig yr Amgueddfa Genedlaethol, lle'r oedd Chloe yn cwblhau lleoliad ar y pryd.

[Mwy>>>](#)

Coleg yn gweithio gyda'r Theatr Genedlaethol

Mae Coleg Penybont yn gweithio gyda'r Theatr Genedlaethol ar ei gynhyrchiad newydd, " Crouch, Touch, Pause, Engage", sy'n canolbwyntio ar cyn-gapten rygbi Cymru, Gareth ' Alfie' Thomas.

[Mwy>>>](#)

Myfyrrwyr yn cael Dosbarth Meistr gan Artist sy'n Coluro i'r Sêr

Cafodd myfyrrwyr trin gwallt o Grwp Llandrillo Menai - campws Y Rhyl - gyfle i fynychu dosbarth meistr gan artist sy'n coluro i'r sêr yn ddiweddar. Mae Caroline James wedi bod yn gyfrifol am greu edrychiad nifer o artistiad proffil uchel o'r diwydiant adloniant, o Yoko Ono i Alice Cooper ag S Club 7.

[Mwy>>>](#)

Briff diwydiant byw ar gyfer tymor y panto

Am y bedwaredd flwyddyn, mae dysgwyr sy'n astudio am Radd Sylfaen a BA (Anrh) Creu Gwisgoedd ar gyfer Sgrin a Llwyfan yng Ngholeg y Cymoedd wedi cynhyrchu amrywiaeth trawiadol o wisgoedd ar gyfer cast pantomeim Rhondda Cynon Taf, gyda dau o diwtoriaid Coleg y Cymoedd yn rhoi eu cefndir yn y diwydiant i waith er mwyn sicrhau sioe broffesiynol.

[Mwy>>>](#)

Enillwyr Cystadleuaeth Barddoniaeth Dylan Thomas

Mae gan Coleg Meirion-Dwyfor - sy'n ran o Grwp Llandrillo Menai - reswm penodol i ddathlu cystadleuaeth ysgrifennu ryngwladol diweddar Llenyddiaeth Cymru dan ddylanwad Dylan Thomas, gyda Lois Llywelyn Williams yn ennill y wobwr gyntaf yn y categori iaith Gymraeg rhwng 16 ac 18 oed a'r cyn-fyfyriwr Guto Dafydd yn cipio'r Brif Wobr yn y categori iaith Gymraeg rhwng 19 a 25 mlwydd oed.

[Mwy>>>](#)

Myfyriwr yn ennill X Factor Cymru

Myfyriwr Technoleg Cerddoriaeth, Suleiman Atta, sy'n astudio yng Ngholeg Llandrillo, Grwp Llandrillo Menai, enillodd fersiwn Cymru o'r X Factor o flaen cannoedd yn Theatr y Pafiliwn yn y Rhyl ychydig cyn y Nadolig.

Yn y flwyddyn newydd, bydd Suleiman yn mynd ar daith ar hyd a lled Cymru gyda naw arall a fu yn y rownd derfynol.

[Mwy>>>](#)

Gweithdy ar wneud newid cadarnhaol

Mae dysgwyr Coleg y Cymoedd o gampws Ystrad Mynach wedi cymryd rhan mewn gweithdy a drefnwyd gan The Fixers: sefydliad lle mae pobl ifanc yn defnyddio eu gorffennol i ddatrys y dyfodol.

Caiff ei ddarlledu gan ITV ym Chwefror 2015.

[Mwy>>>](#)

Rhoi sgiliau ar waith yn y gymuned

Bu'r colegau i gyd yn cymryd rhan yn eu cymunedau lleol dros y Nadolig, gyda digwyddiadau elusennol a sioeau lu. Cafodd myfyrwyr gyfle hefyd i roi eu sgiliau proffesiynol ar waith.

Yn Ffair Flynyddol Nadolig Castell Aberteifi er enghraifft, bu dysgwyr o salon hyfforddi Coleg Ceredigion yn rhoi triniaethau gwallt a harddwch, gwerthodd myfyrwyr TG eu cardiau Nadolig eu hunain, bu myfyrwyr coginio'n gwerthu ystod o fwydydd cartref, roedd gan fyfyrwyr dodrefn flychau adar a matiau diod ar werth, a bu myfyrwyr gofal plant yn cynnal gweithdai i blant tro bo'u rhieini wrthi'n siopa.

[mwy>>>](#)

Y Sioe Graddedigion

Arddangosodd graddedigion o Ysgol Gelf Caerfyrddin Coleg Sir Gâr eu gwaith yng ngaleri King Street mewn arddangosfa o'r enw Y Sioe Graddedigion.

[mwy>>>](#)

Datrys Codau gyda Pheiriant Enigma

Bu i fyfyrwyr ledled colegau Grwp Llandrillo Menai ynghyd a disgyblion ysgol lleol gael cyfle i weld peiriant datrys codau Enigma a ddefnyddiwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a dysgu am gryptograffeg mewn diwrnod a drefnwyd ar y cyd

â Phrosiect Mathemateg Mileniwm Prifysgol Caergrawnt.

[mwy>>>](#)

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB